# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(42)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Tynnwyd cwestiwn 10 yn ol. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.24

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Ardaloedd Menter

Dechreuodd yr eitem am 14.41

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Adolygiad o Effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy
**Dogfen ategol**

Dechreuodd yr eitem am 15.23

### 5. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Cyhoeddi'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd

**Dogfennau Ategol**

Dechreuodd yr eitem am15.56

## 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y DU ynghylch Diogelu Rhyddidau

Dechreuodd yr eitem am 16.23

**NDM4854 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yn NDM4680, y darpariaethau pellach hynny a ddygwyd gerbron yn Bil y DU ynghylch Diogelu Rhyddidau sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth a diogelu data, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Tachwedd 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.(iii)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7. Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16.26

**NDM4901 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau etc) 2012 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2012.

Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol a memorandwm cydsyniad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8. Dadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol

Dechreuodd yr eitem am 16.29

**NDM4902 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu. Yn y cynllun hwn ad-drefnwyd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010, er mwyn canolbwyntio ar wneud i'r system drafnidiaeth weithio'n well i helpu i fynd i'r afael â thlodi, gwella lles a hybu twf economaidd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes gan y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol weledigaeth glir ar gyfer cysylltu Cymru nac i leihau'r broblem gynyddol gyda thagfeydd ar goridor yr M4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 32 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu ei Chynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, gan gydgysylltu â Llywodraeth y DU, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael drwy'r rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 32 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu bod y cysylltiadau strategol rhwng y gogledd a'r de, a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un, yn cael eu cadw yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar ei newydd wedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 13 | 5 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi effaith y toriadau difrifol yng ngwariant cyfalaf Cymru ar brosiectau trafnidiaeth a'r angen i Lywodraeth Cymru nodi ffynonellau ychwanegol o gyfalaf at y diben hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 14 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gwrthwynebu'r bwriad yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i 'gynyddu capasiti'r gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru' ar ôl 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth hedfan ehangach ar gyfer Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 32 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr darparwyr gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r trefniadau cyllido ar ôl mis Mawrth 2012 fel mater o frys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 2 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4902 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu. Yn y cynllun hwn ad-drefnwyd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010, er mwyn canolbwyntio ar wneud i'r system drafnidiaeth weithio'n well i helpu i fynd i'r afael â thlodi, gwella lles a hybu twf economaidd.

Yn croesawu bod y cysylltiadau strategol rhwng y gogledd a'r de, a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un, yn cael eu cadw yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar ei newydd wedd.

Yn nodi effaith y toriadau difrifol yng ngwariant cyfalaf Cymru ar brosiectau trafnidiaeth a'r angen i Lywodraeth Cymru nodi ffynonellau ychwanegol o gyfalaf at y diben hwn.

Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr darparwyr gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r trefniadau cyllido ar ôl mis Mawrth 2012 fel mater o frys.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **50** | **0** | **0** | **50** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**9. Dadl ar yr Adroddiad ar y Strategaeth Microfusnesau**

Dechreuodd yr eitem am 17.24

**NDM4903 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen Microfusnes ac ymrwymiad y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i lunio cynllun ar gyfer gweithredu polisi a strategaeth Microfusnes.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt 1 newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn nodi bod 331,400 o bobl yn gweithio i 193,010 microfusnes yng Nghymru ac yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer microfusnesau yn ei chyllideb.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 30 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

'sy'n cynnwys mesurau i leihau baich ardrethi busnes'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr adroddiad "Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd" yn cynnwys amcangyfrif Llywodraeth Cymru ei fod yn costio £20m i fusnesau gwblhau'r cam cyn-gymhwyso er mwyn cyflwyno cais ar gyfer contractau caffael cyhoeddus, ac mae hynny'n atal microfusnesau rhag cystadlu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 31 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhelliad yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru greu un brand cyfarwydd i gael mynediad at gymorth i fusnesau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu argymhelliad yr adroddiad i leihau'r baich rheoleiddio ar ficrofusnesau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno polisi 'un i mewn ac un allan' ar gyfer rheoliadau sy'n effeithio ar ficrofusnesau; a

b) cyflwyno cymal machlud ar gyfer yr holl reoliadau newydd sy'n effeithio ar ficrofusnesau er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 7 | 25 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Strategaeth Microfusnes yn cynnwys darpariaeth i fynd i'r afael â mannau gwan ar gyfer derbyn band eang fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gan bob microfusnes fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4903 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen Microfusnes ac ymrwymiad y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i lunio cynllun ar gyfer gweithredu polisi a strategaeth Microfusnes.

Yn nodi argymhelliad yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru greu un brand cyfarwydd i gael mynediad at gymorth i fusnesau.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Strategaeth Microfusnes yn cynnwys darpariaeth i fynd i'r afael â mannau gwan ar gyfer derbyn band eang fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gan bob microfusnes fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.08

Daeth y cyfarfod i ben am 18.13

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 1 Chwefror 2012**